PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 16 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Lay, Mackie, Owen a/ac Wood |

27 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Wong.

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

29 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir, yn amodol ar ychwanegu'r paragraff canlynol ar ddechrau cofnod rhif 25: Pwyllgor Craffu Amgylcheddol -

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd am oedi'r gwe-ddarllediad. Cynigiwyd na ddylai'r gwe-ddarllediad barhau. Pleidleisiwyd ar y cynnig a chytunodd y Pwyllgor na ddylai'r gwe-ddarllediad barhau. Cododd y Cynghorydd Hill-John bryderon fod y gwe-ddarllediad wedi'i stopio cyn bod y Pwyllgor wedi rhoi ei gymeradwyaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Hill-John i'w hanghytundeb gael ei gofnodi yn y cofnodion.

30 : YMATEB Y CABINET I REOLI CYLLID ADRAN 106 AR GYFER DATBLYGU PROJECTAU CYMUNEDOL

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i reoli cyllid Adran 106 ar gyfer datblygu projectau cymunedol. Sefydlodd y Pwyllgor Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal yr ymchwiliad. Cyflwynwyd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Cabinet ar 21 Medi 2017. Cytunwyd ar ymateb y Cabinet i'r adroddiad gan y Cabinet ar 16 Tachwedd 2017. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi ymateb y Cabinet i bob argymhelliad ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn fanwl.

Hysbyswyd yr aelodau fod yr ymchwiliad wedi argymell proses unigol a bod angen ymateb i hwn a derbyniwyd yr argymhelliad gan y Cabinet. Roedd yr argymhelliad yn seiliedig ar yr elfennau canlynol:

- Creu rhestr brojectau
- Man mynediad project wedi'i nodi ar gyfer syniadau newydd
- Proses dilysu ac asesu projectau
- Penderfynu ar brojectau (cymeradwyo a gwrthod)
- Rhestr brojectau i fod yn ddull storio ar gyfer projectau i'r dyfodol

- Trefniad penodol pob rhestr brojectau
- Man mynediad ar gyfer gwasanaethau cyflenwol
- Adnoddau ategol

Nodwyd manylion llawn ymateb y Cabinet yn Atodiad 2 yr adroddiad. Hysbyswyd yr aelodau fod swyddogion wedi dechrau gweithredu ar argymhellion ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol agos a fydd yn nodi proses newydd i reoli cyllid Adran 106 ar gyfer projectau cymunedol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, caiff y broses newydd ei chyflwyno yn 2018/19.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth; y Cynghorydd Keith Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio; Andrew Gregory, Cyfarwyddwr; a Michael Barrett, Swyddog Cynllunio, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad byr ar rwymedigaethau Adran 106 yr awdurdod a chynigion ar gyfer rheoli projectau cymunedol.

Agorodd y Cadeirydd ddadl ar yr eitem hon. Gofynnwyd i'r aelodau wneud sylw, gofyn am eglurhad neu godi cwestiwn ynghylch yr wybodaeth a gyflwynwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion ar gyfer rheoli cyllid Adran 106 a chreu rhestrau ward o brojectau cymunedol â blaenoriaeth.
- Roedd yr aelodau'n ystyried bod y broses arfaethedig yn welliant ar y sefyllfa bresennol lle mae swyddogion yn bwrw ymlaen â phrojectau cymunedol ac nad ymgynghorir ag aelodau ward. Nododd y Cyfarwyddwr mai mantais ychwanegol y system newydd fyddai i'r awdurdod fod mewn sefyllfa gryfach yn y dyfodol wrth gyd-drafod â datblygwyr. Gofynnodd aelodau a fyddai projectau llai blaenllaw yn cael llai o flaenoriaeth. Nododd y swyddogion fod gwahanol fathau o gyllid Adran 106 ar gael a bod eu dyraniad yn destun cytundeb cyfreithiol. Bydd projectau mannau agored cymunedol yn parhau ar ôl ymgynghori ag aelodau lleol a chaiff trafodaethau eu cynnal. Nod y broses arfaethedig yw cysoni'r ymagwedd hon ar draws y ddinas trwy sefydlu cyfres drefnus o restrau a fydd yn cyd-fynd â'r rhestrau Gwella Cymdogaethau newydd. Byddai cyllid Adran 106 yn bwydo i mewn i'r projectau hynny. Roedd y swyddogion yn ceisio cael dealltwriaeth o flaenoriaethau aelodau ward lleol.

- Gofynnodd aelodau pa awdurdod a fyddai'n pennu a gwneud y penderfyniad terfynol ar ba brojectau i'w datblygu. Nododd y Cyfarwyddwr mai'r aelodau fyddai'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol yn y pen draw, ond y rhagwelir y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy gytundeb ar y cyd, yn dilyn trafodaethau sy'n ystyried safbwyntiau gwahanol. Derbyniodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ddefnyddiol i gael peth eglurder ynglŷn â'r pwynt penodol hwn ac fe groesawodd farn y Pwyllgor.

- Gofynnodd aelodau i'r swyddogion egluro ym mha amgylchiadau y byddai barn datblygwyr yn cael eu hystyried a pha opsiynau fyddai ar gael i aelodau ward lleol os nad oedd y cynlluniau ar eu rhestr leol yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau eu hunain. Nododd y Cyfarwyddwr y byddai pob cynllun yn wahanol ond y byddai pob rhestr yn cynnwys rhestr o flaenoriaethau cyffredin o'r tu mewn i'r ward, ac y byddai hyn yn fan cychwyn. Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig pwysleisio nad

oedd pob rhestr yn 'rhestr ddymuniadau' o gynlluniau posib; roedd pob rhestr yn cynnwys cynlluniau oedd wedi'i hystyried o fudd cynllunio a gallai'r swyddogion roi gwybodaeth am y pwynt pwysig hwn. Dywedodd y Cadeirydd eto fod hyfforddiant i'r aelodau'n hanfodol.

- Nododd yr aelodau y byddai mwy o gyllid Adran 106 ar gael yn wardiau canol y ddinas lle mae rhagor o ddatblygiadau ar waith. Gofynnodd yr aelodau pa mor hir fyddai pob rhestr felly. Roedd y swyddogion yn ystyried y byddai hyd pob rhestr yn dibynnu ar yr adborth gan aelodau ward lleol. Derbyniwyd ei bod yn debygol mewn rhai wardiau, lle mae rhagor o ddatblygiadau ar waith, y byddai blaenoriaethau'n cael eu cyflawni'n gynt.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut byddai'r cynllun Adran 106 yn cael ei fonitro, yn benodol o ran terfynau amser i gynlluniau sy'n amser-gyfyngedig. Gofynnodd yr aelodau pa faint o gyllid Adran 106 sydd wedi cael ei golli oherwydd dyddiadau dod i ben dros y blynyddoedd diwethaf. Nododd y Cyfarwyddwr fod swyddog bellach yn y swydd sy'n gyfrifol am gydlynu cyllid Adran 106. Nid oedd y Cyfarwyddwr yn gwybod pa faint o gyllid Adran 106 sydd wedi'i golli ond nid swm sylweddol ydoedd. Addawodd y Cyfarwyddwr roi'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor.

- Gofynnodd aelod sut byddai pob rhestr yn cael ei rheoli ac a fyddai modd addasu'r rhestr er mwyn ychwanegu projectau, neu ddileu projectau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddichonadwy, a hefyd a ymgynghorid ag aelodau ar gynlluniau amgen arfaethedig Nododd y swyddogion y byddai cyswllt rheolaidd ag aelodau lleol a byddai unrhyw benderfyniad i ychwanegu/dileu eitemau'n amodol ar y trafodaethau hynny.

- Gofynnodd aelod a roddwyd ystyriaeth i ddigideiddio a defnyddio ymagwedd dull busnes at ddyrannu cyllid Adran 106, megis cyfrifyddu sail sero. Hysbyswyd yr aelodau fod cyllid Adran 106 yn cael ei dracio ac nad oedd y swyddogion yn gwybod am unrhyw arian oedd yn cael ei ddychwelyd i ddatblygwyr. Roedd y swyddogion yn ceisio symleiddio prosesau lle bynnag y bo modd.

- Gofynnodd y Pwyllgor i bob aelod dderbyn diweddariad bob 6 mis am gyllid Adran 106 yn ei ward.

- Gofynnodd yr Aelod Cabinet am aelodau a fyddai'n fodlon gwirfoddoli i brofi'r system restrau honno cyn ei chyflwyno ar draws y Cyngor.

PENDERFYNWYD – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau a mynegiadau'r Pwyllgor.

## 31 : PROJECTAU DIGIDEIDDIO GWEITHREDIADAU'R DDINAS

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy'n rhoi cyfle i'r aelodau adolygu'r projectau digideiddio sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas.

Hysbyswyd y Pwyllgor y bu'r aelodau, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2017, yn ystyried y byddai'n werth craffu ar y ffyrdd mae gwasanaethau'n cael eu gwella trwy ddefnyddio technoleg fodern. Mae'r Cyngor wrthi'n diffinio agenda ddigideiddio i

helpu i foderneiddio a chyfeirio amrywiaeth eang o'i wasanaethau. Nodir y bwriad i ddilyn y llwybr hwn yn glir yn Uchelgais Prifddinas Caerdydd newydd, yn yr adran o'r enw 'Dewis Digidol' sy'n amlinellu cefndir a chyd-destun digideiddio yn y Cyngor a'r cyfeiriad ar ei gyfer yn y dyfodol. Esboniodd yr adroddiad fod technoleg yn trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus lleol a bod awdurdodau lleol yn fwyfwy awyddus i awtomeiddio prosesau, symud trafodion a gwasanaethau cwsmeriaid i sianeli cyfathrebu ar-lein a symud systemau cynghorau i rwydwaith y cwmwl.

Mae technoleg ddigidol wedi cyflawni effeithlondebau'n llwyddiannus. Er enghraifft, trwy gyflwyno gweithio ac amserlenni symudol, gweithio ystwyth ac ailddylunio prosesau, mae staff rheng flaen yn y meysydd cynnal a chadw tai a gofal cymdeithasol yn gallu treulio mwy o amser gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan arwain at arbedion o ran lleoedd swyddfa. Cynigir i'r Cyngor ddilyn rhaglen gynhwysfawr o drawsnewid digidol a bod rhaid i'r dull digidol, lle bo modd, fod y dull safonol o gyrchu gwasanaethau'r Cyngor. Gwneir ymdrech ar y cyd i gyflwyno e-daliadau ar draws yr ystod lawn o wasanaethau, wedi'i chydbwyso gan ymrwymiad parhaus i ymgysylltu â dinasyddion nad oes modd iddynt fanteisio ar dechnoleg ddigidol.

Hysbyswyd yr aelodau y rhoddir pwyslais ar symleiddio ac awtomeiddio prosesau busnes. Ar draws nifer o gynghorau, cymerir camau i wthio ffiniau trwy awtomeiddio prosesau busnes, ond yng Nghaerdydd prin yw nifer y gwasanaethau sydd wedi cael eu digideiddio. Caiff y newidiadau arfaethedig eu hategu gan lwyfan data unigol ar gyfer yr holl wasanaethau. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i gyfuno setiau data a oedd yn ddigyswllt o'r blaen a'u dadansoddi, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o natur y galw presennol ar wasanaethau a rhagweld lle bydd galw yn y dyfodol.

Cynigir y bydd swydd y Prif Swyddog Digidol yn rôl hollbwysig wrth sicrhau bod y rhaglen newid hon yn cael ei chydlynu a'i cyflwyno ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Fel cam paratoadol ar unwaith, cynigir cynnal adolygiad o wasanaethau TGCh, gan gynnwys caledwedd, meddalwedd ac adnoddau.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i aelodau'r Pwyllgor o'r projectau digideiddio sydd wedi'u cwblhau, yn yr arfa3eth neu ar waith yng Gwasanaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Nododd yr adroddiad hefyd fod yr ymgynghoriad ar arbedion cyllidebol ar gyfer 2018/19 yn cynnig i £1,206 miliwn o arbedion gael eu dyrannu yn erbyn y categori 'Prosesau Busnes gan gynnwys Digideiddio', a ddisgrifir fel '*Arbedion Effeithlonrwydd ar draws y Cyngor – Yn unol â strategaeth ddigidol y Cyngor, caiff yr arian hwn ei arbed trwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd busnes trwy wariant trydydd parti, prosesau codi tâl, technoleg ac adnoddau staff eraill. Bydd hyn yn rhoi'r defnydd o ffurfiau digidol o gyfathrebu a chyflwyno gwasanaethau wrth wraidd y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn rhyngweithio â'r bobl mae'n eu gwasanaethu'.*

Gwahoddwyd Andrew Gregory a Matt Wakelam gan y Cadeirydd i roi cyflwyniad byr ar Brojectau Digideiddio Gweithrediadau'r Ddinas. Gwahoddwyd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau am yr wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd y Pwyllgor fod £1.206 miliwn o arbedion wedi cael eu dyrannu i 'Brosesau Busnes gan gynnwys Digideiddio' yn yr ymgynghoriad ar gynigion cyllidebol.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion wedi trafod y cynigion a sut byddent yn cael eu cyflawni. Nododd y swyddogion fod y ffigurau’n cyfeirio at arbedion corfforaethol ar draws y Cyngor. Roedd trafodaethau’n parhau ynghylch union natur yr arbedion hyn. Gofynnodd aelodau a fyddai technoleg newydd yn arwain at ymagwedd fwy rhagweithiol ac bod yn gysylltiedig â chwynion. Roedd gan yr aelodau brofiad o wneud sawl cais am wasanaeth yn yr un lleoliadau. Nododd y swyddogion y bydd modd chwilio trwy ddata ac adnabod tueddiadau. Bydd y dechnoleg newydd yn galluogi’r defnydd o ‘fapiau lliwiau’ i nodi problemau mewn lleoliadau penodol neu’n sy’n gysylltiedig ag asedau penodol.

- Gofynnodd yr aelodau i ba raddau yr oedd systemau papur yn cael eu defnyddio o hyd. Nododd y swyddogion fod y defnydd o systemau papur yn amrywio ar draws y gwasanaeth. Amcangyfrifwyd mai cymhareb y rhaniad digidol/papur oedd 40/60 a nodwyd nad yw technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio i’w photensial llawn ar hyn o bryd ond bod y gwasanaeth yn symud i’r cyfeiriad cywir.

- Roedd gwelliannau’n cael eu croesawu gan yr aelodau, megis mesuryddion talu digyswllt mewn meysydd parcio a oedd wedi cynyddu refeniw i’r Cyngor ac wedi hwyluso’r broses dalu i’r cyhoedd. Ystyrid na fyddai manteision y polisi digideiddio’n amlwg am beth amser ond bod rhaid i’r awdurdod fuddsoddi amser ac ymdrech yn y newidiadau hyn.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai systemau newydd yn cael eu diweddaru’n flynyddol er mwyn aros ar flaen y gad o ran datblygiadau technolegol. Nododd y swyddogion fod technoleg yn parhau i ddatblygu wrth i fersiynau newydd o galedwedd a meddalwedd gael eu cyflwyno. Y disgwyl oedd y byddai arian yn cael ei neilltuo ar gyfer diweddaru systemau ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y flaenraglen.

- Hysbyswyd y Pwyllgor fod y gwasanaeth, yn gyffredinol, yn awyddus i gyflwyno systemau a fyddai’n galluogi swyddogion i gael mwy o amser. Byddai hyn yn eu galluogi i ddefnyddio eu harbenigedd ac yn eu hatal rhag ymwneud ymhellach â thasgau gweinyddol, fel gyda’r sefyllfa ar hyn o bryd.

- Gan ymateb i bwynt gan aelod o’r Pwyllgor, cadarnhaodd y swyddogion fod yr awdurdod yn defnyddio’r un nifer o systemau mesuryddion parcio gwahanol ar draws y ddinas. Mae rhai mesuryddion yn parhau i ddangos hysbysiadau papur ac mae eraill yn methu bodloni gofynion Safonau’r Gymraeg. Mae cyfres o raglenni ar waith i adnewyddu’r asedau hyn.

- Nododd aelod fod y swyddogion wedi ymweld â’i ward yn ddiweddar i drafod problemau parhaus gyda thipio’n anghyfreithlon. Nododd yr aelod fod timau casglu sbwriel yn dod i’r ward, fel y mae timau casglu gwastraff. Fodd bynnag, mae sawl achos o dipio’n anghyfreithlon heb eu hadrodd o hyd.

- Trafododd aelodau a fyddai modd datblygu app a fyddai’n galluogi defnyddwyr gwasanaeth bysus i dracio’r bws nesaf i fod ar gael ar y llwybr, yn debyg i’r app. Hysbyswyd yr aelodau fod Traveline Cymru yn rhoi gwybodaeth mewn amser go iawn am deithiau bysus. Roedd yr Aelod Cabinet yn ystyried bod potensial i ddatblygu app ac fe awgrymodd y gellid trafod hyn â’r cynigydd buddugol ar gyfer Metro’r Brifddinas-ranbarth

- Gofynnwyd i'r swyddogion roi manylion am sut byddai'r arbedion gwerth £212,000 – y cyfeiriwyd atynt fel 'CONSULT 1' yn yr ymgynghoriad cyllidebol ar gyfer 2018/19 – yn cael eu cyflawni. Nododd y swyddogion ei bod yn anodd gweld lle gellid gwneud yr arbedion hynny ar hyn o bryd ond roedd modd symud staff a chynyddu arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Er enghraifft, yn y flwyddyn ariannol bresennol gwnaed arbedion effeithlonrwydd yn y Tîm Goleuadau Stryd. Caiff monitro cyllidebol misol ei gynnal gyda'r Tîm Cyllid. Cododd yr aelodau bryderon nad oedd modd dod o hyd i'r £212,000 os nad oedd yr arbedion yn cael eu cyflawni. Roedd y swyddogion yn cytuno ac yn ystyried y byddai adnoddau'n cael eu rheoli'n fewnol. Temlai'r swyddogion ei bod yn bwysig i'r aelodau gydnabod y gellid gwneud rhai arbedion ond nid eraill. Ystyriodd y Pwyllgor y dylai cynigion o ran arbedion fod mor glir â phosib. Nododd y Cyfarwyddwr fod y ffigur yn frasamcan o'r manteision i'w cyflawn wrth i'r gwasanaeth newid i dechnoleg ddigidol a'i fod yn cyfateb yn fras i'r projectau a nodwyd eisoes. Gofynnodd yr aelodau a oedd yn gall amcangyfrif ffigur cyn i'r Prif Swyddog Digidol ddechrau yn ei swydd. Derbyniwyd y pwynt hwn gan yr Aelod Cabinet.

PENDERFYNWYD – Y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i'r Aelod Cabinet i gyfleu barn a sylwadau'r Pwyllgor.

## 32 : GWELLA ANSAWDD AER CAERDYDD – YMARFER GORCHWYL A GORFFEN

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu ddiweddariad llafar ar gynnydd yr adroddiad Ymchwiliad Tasg a Gorffen ar Wella Ansawdd Aer Caerdydd. Dosbarthwyd nodyn cryno o'r cylch gorchwyl, canfyddiadau allweddol ac argymhellion drafft.

PENDERFYNWYD - Nodi'r diweddariad cynnydd.

## 33 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH 2017/18

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu raglen waith y pwyllgor hwnnw ar gyfer 2017/18. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chytuno ar eitemau i'r rhaglen waith yn y dyfodol.

Roed y pwyllgor o'r farn y byddai cefnogaeth dros ymchwiliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oherwydd bod sbwriel yn effeithio ar bob preswylydd a byddai cryn ddiddordeb gan y cyhoedd yn y pwnc. Byddai ymchwiliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhoi cyfle i ystyried gwelliannau i wasanaethau ac arfer da.

Roedd yr aelodau'n ystyried y dylai unrhyw ymchwiliad ymdrin â phroblemau gyda sbwriel yn yr ystyr ehangaf i gynnwys cysylltiadau â thipio'n anghyfreithlon, cwymp dail a phroblemau sy'n ymwneud â chasglu gwastraff ac ati.

Gofynnwyd i'r aelodau hefyd gyflwyno datganiadau o ddiddordeb os oeddent am gymryd rhan yn ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog Craffu'n dosbarthu copi o adroddiad blaenorol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r enw 'Sbwriel yng Nghaerdydd' a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013. Byddai hyn yn rhoi peth cyd-destun ynghylch yr hyn y gellir craffu arno ac yn ysgogi'r aelodau i awgrymu meysydd posib i'w cynnwys yng nghylch gorchwyl newydd ymarfer sbwriel a thipio'n anghyfreithlon y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

34 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbyswyd yr aelodau y byddai cyfarfod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror 2018

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm